CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Ymateb Gogledd Cymru i'r Cynllun "Cymru Iachach"

Crynodeb o'r Rhaglen Trawsnewid



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Cyfanswm cyllideb y rhaglen

Prosiect	2018/19 (£)	2019/20 (£)	Hyd at Fedi 2020 (£)
1. Trawsnewid gwasanaethau cymunedol	231,000	3,732,000	2,041,000
2. Ymyrraeth gynnar integredig a chefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc	130,000	2,307,000	563,000
3. Law yn Llaw at lechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru	358,000	1,962,000	
4. Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu.	290,000	1,400,000	
Cyfanswm	**1,009,000**	**9,401,000**	**2,604,000**

1. Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Yr hyn yr hoffem ei wneud

Datblygu lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd yn seiliedig ar ddaearyddiaeth y clystyrau gofal sylfaenol, ychwanegu at y gwaith wedi'i wneud hyd yma a datblygu cysylltiadau gyda Thimau Adnoddau Cymunedol.

Fel rhanbarth byddwn yn cyd-lunio egwyddorion dylunio rhanbarthol a glasbrintiau i danategu ein datblygiad. Er mwyn cyflawni hynny bydd partneriaid yn gweithio gyda dinasyddion i ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i gael gwasanaethau di-dor wedi eu cydlynu'n dda ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflenwi

- Datblygu gweithlu cynaliadwy i ateb yr agenda trawsnewid cymunedol.
- Adnabod model y gellir ei ddefnyddio'n ddigidol ar gyfer gofal, cefnogaeth a lles y gellir ei ddatblygu ar draws Gogledd Cymru a'i addasu i gwrdd â'r galw lleol.
- Datblygu rhwydweithiau cymunedol, gweithio gyda'r trydydd sector i gefnogi gwasanaethau lles, hyrwyddo cynhwysiad a chyfranogiad a chydlynu cyfarwyddeb gymdeithasol.

Canlyniadau

- Pobl yn cael y gofal, cefnogaeth a diagnosis cywir gyda mynediad parhaus i wasanaethau ar y cyd
  - Cyn gynted â phosib
  - Neu, mor agos i gyfeiriad arferol yr unigolyn ag sy'n bosib
  - Trwy gyfrwng y Gymraeg os y dymunir
- Rydym yn clywed ac yn gwrando aryn leisiau ein pobl. Mae'r holl drafodaethau yn deillio o'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Gall pobl gyfrannu at benderfyniadau sydd yn effeithio eu bywydau, a gallent ymrwymo yn eu cymuned neu gael rhywun i ddadlau drostyn nhw
- Pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch, tra'n cael eu hamddiffyn rhag gamdriniaeth ac esgeulustod

Bydd y dull yn cefnogi arloesi a chymryd risgiau dan reolaeth gyda ffyrdd newydd o weithio y gellir eu monitro a'u graddio ar draws y rhanbarth. Bydd llwyddiannau yn cael eu rhannu gyda sefydliadau eraill yng Nghymru.

Rhanddeiliaid

- Dinasyddion
- BIPBC
- Awdurdodau Lleol
- Darparwyr trydydd sector a'r sector annibynnol
- Cymunedau lleol
- Cymdeithasau Tai

Cynllun Cyflenwi

	Rhag 19	Ion 19	Chwe 19	Maw 19	Ebr 19	Mai 19	Meh 19	Gorff 19	Awst 19	Medi 19	Hyd 19	Tach 19	Ion 20	Chwe 20	Maw 20	Medi 20
Cyflwyno a Chymeradwyaeth																
Sefydlu'r Llywodraethu																
Recriwtio tîm ar gyfer y rhaglen																
Recriwtio staff																
DPA Gwaelodlin																
PIDs: Gweithlu a digidol; lles cymunedol																
Cyflenwi a monitro																
Gwerthuso a chau																
Pwynt penderfynu																



Prevention and early intervention | Safety | Independence | Voice | Personalised | Seamless | Higher value | Evidence driven | Scalable | Transformative services

2. Ymyrraeth gynnar integredig a chefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc

Yr hyn yr hoffem ei wneud

Canolbwyntio ar blant a phobl ifanc fel rhan o'r weledigaeth ranbarthol ar gyfer gwasanaethau di-dor o fewn ardaloedd lleol.

Cyflenwi

- Cymorth cynnar: Datblygu hybiau cymorth/ymyrraeth gynnar
- Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal: ymestyn mynediad at gefnogaeth therapiwtig trwy dimau/llwybrau integredig
- Timau Asesu a Chefnogaeth: Asesiad preswyl byrdymor gyda thîm amlddisgyblaethol ar safle er mwyn nodi'r lleoliad mwyaf priodol i fodloni'r anghenion cefnogaeth a'r canlyniadau a ddymunir

Canlyniadau

- Lleihad yn nifer y plant sy'n cael eu derbyn yn barhaol i ofal llawn amser
- Lleihad yn yr amser a dreulir mewn gofal
- Lleihad mewn chwalfeydd teulu / lleoliad
- Lleihad yn y defnydd o unedau preswyl annibynnol ar gyfer gofal hirdymor.
- Lleihad mewn achosion gofal

Rhanddeiliaid

- Plant a Phobl Ifanc
- Rhieni / gofalwyr / teuluoedd
- Sectorau trydyddol ac annibynnol
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg
- Cymdeithasau Tai



Cynllun Cyflenwi



3. Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru.

Yr hyn yr hoffem ei wneud

Darparu gwasanaeth gofal brys integredig di-dor ar gyfer unigolion sy'n profi argyfwng iechyd meddwl neu sydd angen cefnogaeth ar unwaith.

Cyflenwi

- Rhedeg modelau gwasanaeth amgen fel cynlluniau peilot er mwyn cynnal unigolion o fewn y gymuned. Byddai'r rhain yn cynnwys caffis argyfwng / hafanau diogel, seintwarau, gwasanaethau triniaeth gryfach yn y cartref a gwasanaethau cam-i-lawr.
- Gweithio â gwasanaethau cyfiawnder troseddol er mwyn darparu ymateb integredig effeithiol i unigolion ag anghenion iechyd meddwl sy'n dod i gyswllt â gwasanaethau'r Heddlu.
- Adolygu Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a rôl y sectorau trydyddol ac annibynnol yn y gwaith o gefnogi pobl sydd â risg uchel o argyfwng iechyd meddwl difrifol, gan gynnwys datrysiadau technoleg ddigidol.

Canlyniadau

- Lleihau'r gyfradd o dderbyniadau o dan Adran 136
- Lleihau'r galw ar y system gofal heb ei drefnu
- Profiad gwell i gleifion
- Gwell integreiddiad a mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl ar draws sectorau
- Lleihad mewn derbyniadau i unedau seiciatryddol
- Profiad gwell i deuluoedd a gofalwyr
- Boddhad staff uwch
- Gwelliant yn ansawdd Cynllunio Gofal a Thriniaeth os yw dulliau gweithredu amlasiantaethol yn cael eu hyrwyddo.
- Dewis mwy o ran cefnogaeth gymunedol
- Gwelliant mewn cefnogaeth tai
- Mwy o integreiddio â gwasanaethau iechyd corfforol
- Gwella gwybodaeth a sgiliau'r gwasanaethau brys o ran iechyd meddwl, hunanladdiad a hunan-niwed.

Rhanddeiliaid

- Y chwe Awdurdod Lleol.
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Prifysgolion a darparwyr addysg
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Sefydliadau lleol o fewn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
- Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr
- Y Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Yr holl adrannau, yn cynnwys gofal sylfaenol
- Caniad – cynrychioli pobl sydd â phrofiad gwirioneddol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd
- Cymdeithasau Tai

Cynllun Cyflenwi

	Tach 18	Rhag 18	Ion 19	Chwe 19	Maw 19	Ebr 19	Mai 19	Meh 19	Gorff 19	Awst 19	Medi 19	Hyd 19	Tach 19	Ion 20	Chwe 20	Maw 20
Cytuno ar lywodraethiad																
Recriwtio																
Cyflenwi'r rhaglen																
Gwerthuso																



4. Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor ar gyfer unigolion gydag anableddau dysgu

Yr hyn yr hoffem ei wneud

Datblygu model di-dor o wasanaethau anableddau dysgu yn seiliedig ar yr 'hyn sydd o bwys' i'r unigolion ac adeiladu ar gefnogaeth i deuluoedd, rhwydweithiau anffurfiol, a modelau tîm adnoddau cymunedol.

Cyflenwi

- Datblygu gwasanaethau, asesiadau a chofnodion integredig.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag anableddau ymysg gweithlu ehangach y sector gyhoeddus, gan gynnwys yr addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud er mwyn sicrhau darpariaeth o fynediad teg a chyfartal at wasanaethau ac adnoddau cymunedol eraill i unigolion sydd ag anableddau dysgu.
- Symud tuag at fodelau comisiynu person-ganolog sy'n canolbwyntio ar y canlyniad lle caiff y broses ei arwain gan yr unigolion i ddarparu gwasanaethau sy'n datblygu hunan-ddibynadwyedd, yn gwella ansawdd gofal, yn lleihau'r galw ac yn ail-fuddsoddi mewn mathau newydd o ofal.
- Codi ymwybyddiaeth a meithrin cyfeillgarwch a chysylltiadau mewn cymuned gynhwysol er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr asedau, yr adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael.
- Defnyddio technoleg gynorthwyol er mwyn cefnogi pobl i ddod yn fwy annibynnol.

Canlyniadau

- Bydd llai o bobl yn disgyn i'r bylchau rhwng gwasanaethau neu'n profi oedi mewn cefnogaeth
- Gwell iechyd a lles a lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd
- Llai o leoliadau y tu allan i ardal leol yr unigolyn
- Bydd mwy o bobl sydd ag anableddau dysgu yn cymryd rhan yng ngweithgareddau eu cymuned leol ac yn ddeiliaid swyddi cyflogedig.
- Bydd mwy o unigolion sydd ag anableddau dysgu yn defnyddio technoleg yn ddiogel er mwyn ei helpu i fyw yn fwy annibynnol.

Rhanddeiliaid

- Dinasyddion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Awdurdodau Lleol
- Darparwyr o fewn y sectorau trydyddol ac annibynnol
- Cymunedau lleol
- Y sector gyhoeddus ehangach
- Cymdeithasau Tai

Cynllun Cyflenwi

	Tach 18	Rhag 18	Ion 19	Chwe 19	Maw 19	Ebr 19	Mai 19	Meh 19	Gorff 19	Awst 19	Medi 19	Hyd 19	Tach 19	Ion 20	Chwe 20	Maw 20
Recriwtio																
Cyflenwi'r rhaglen																
Gwerthuso